

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Samuel:

Duw yn siarad â Samuel

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair: Ilyfrau 2007/08

Porthi'r Pum Mil

Gideon - yn ymladd dros Dduw

Y Nadolig

Teulu Newydd Ruth

Moses - Y Dywysoges a'r Baban

Pasg – Iesu'r Brenin

Samuel – Duw yn siarad â Samuel

Pentecost – Newyddion Da lawn

Daniel – yn ffau'r Llewod

Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas

Samuel: Duw yn siarad â Samuel © Cyhoeddiadau'r Gair 2008

Testun: Sarah Morris

Tafleni atodol: Leah Slaymaker

Darluniau gan Dawn Wilks

Cynllun y clawr: Ynyr Roberts

Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 1 85994 607 0

Argraffwyd yng Nghymru gan Finline, Rhuthun.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu tafleni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:

**Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH**

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Samuel

Mae penodau cyntaf llyfr 1 Samuel yn olrhain hanes sefydlu Brenhiniaeth yn Israel. Y proffwyd Samuel sy'n gyfrifol am eninio Saul a Dafydd, y ddau frenin cyntaf, ac ef hefyd sy'n gyfrifol am gyflwyno Gair Duw iddynt ac i bobl Israel.

Yn ein gwersi, byddwn yn cyfarfod â'r Samuel ifanc a Hanna, ei fam, ac yn dysgu sawl gwrs o'u hanes am fywyd y Cristion, e.e. y mae'r modd y mae Hanna'n delio gyda'i phoenau yn esiampl i ni heddiw. Mae Hanna yn ddi-blant, ac yn dioddef gwarth gwraig arall ei gŵr, Peninna, sydd â llond lle o blant. Gwelwn Hanna yn arllwys ei chalon o flaen yr Arglwydd, heb ddal dim yn ôl, ac yn gwneud adduned anhygoel Iddo. Gwelwn ymateb Duw i'w gweddi gyda genedigaeth Samuel, ac wedyn gwelwn barodrwydd Hanna i gadw ei haddewid wrth gyflwyno ei mab i Eli, yr offeiriad, i fyw ac i weithio yn y Tabernacl ar hyd ei oes.

Mae Duw Israel wrth Ei fodd yn codi'r rhai anghenus a'r gostyngedig sy'n galw arno – gwirionedd sy'n cael ei ailadrodd ym mywyd yr Arglwydd Iesu droeon.

Mae cyflwr ysbrydol y genedl yn ystod yr adeg hon yn warthus. Mae'r arweinwyr crefyddol yn ddynion annuwiol, dynion sydd yn ddieithr i Dduw (1 Samuel 2:11-26). Ond mae yna lygedyn o oleuni, wrth i'r bachgen Samuel dyfu i fyny yn y Tabernacl yn gwasanaethu. Mae Duw ar waith yn paratoi arweinydd duwiol i'w bobl.

Mae geiriau'r emyn, "O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu" yn dod i'm cof wrth ystyried y prif themâu y byddwn yn eu dilyn gyda'r plant a'r bobl ifanc yn y gyfres hon. Pwysleisiwn y ffrainc sydd gan bobl Dduw i fynd â'r cyfan ato mewn gweddi – eu pryderon, eu cwynion, eu gofidiau, eu gwendidau. Mae gennym hyder y bydd Ef yn gwrando ac yn deall. Mae gennym sicrwydd y bydd Ef yn gallu dod â heddwch a thawelwch i'n calonnau, megis yn achos Hanna.

Byddwn hefyd yn ystyried pwysigrwydd clywed Duw yn siarad, a hynny trwy Ei Air ac yn annog y blant a'r bobl ifanc i geisio dod i adnabod Duw eu hunain trwy Ei Air. Pwysleisiwn pa mor angenrheidiol yw profi cymorth yr Ysbryd Glân i ddeall y Beibl. Byddwn yn cyfarfod â chriw o bobl ifanc o ardal Llansannan sy'n tystio i rym Gair Duw yn eu bywydau. Yn y Gwasanaeth Teuluol, byddwn yn cofio am waith Cymdeithas y Beibl, cymdeithas sy'n bodoli i hyrwyddo darllen a deall Gair Duw trwy'r byd.


Fy ngweddi a'm gobaith wrth i ni astudio hanes Hanna a Samuel yw y byddwn yn sylweddoli o'r newydd y breintiau sydd gennym – Gair Duw ar gael yn rhywydd yn ein hiaith ein hunain a mynediad i bresenoldeb Yr Arglwydd Dduw trwy waed ein Gwardedwr. Gadewch i ni droi ato yn gyson er mwyn i ni fod yn gymorth i'n plant a'n pobl ifanc i wneud hynny yn yr un modd.

Rhestr Adnoddau

Llyfrau stori

Samuel yn Helpi Eli

Pris £1.50



Hanes Samuel: Beiblau Lliw

Beibl Bach i Blant: Un Noson Dywyll
Rhif 19, tud 172

Beibl Lliw y Plant:
Duw'n galw Samuel i'w wasanaethu, tud. 108

Y Beibl Graffig: Hanes Samuel


Fideos

Cyfes y Beibl Fideo: Tâp 2: stori 6



Oed Meithrin – 5

Samuel: 1 Samuel 1-3



Amcanion:

- ❖ i ystyried sut atebodd Duw weddïau Hanna am blentyn
- ❖ i gyflwyno'r syniad ein bod yn gallu siarad gyda Duw hefyd
- ❖ i ystyried sut siaradodd Duw â Samuel

AMSER CHWARAE

1. Gêm wrando

Esboniwch wrth y plant eich bod am roi neges iddynt a bod yn rhaid iddynt wrando yn ofalus, ac wedyn, gwneud beth sy'n ofynnol, e.e. "Dos i nôl y creonau i mi" neu "Tynna lun sgwâr coch ar y papur yma." Sibrydwch neges i'r plant, un ar y tro. Cofiwch ganmol y plant am wrando yn dda ac am fod yn ufudd. Esboniwch bod ein stori heddiw am rywun a oedd yn siarad gyda Duw. Roedd y person yma yn gofyn i Dduw am rywbeth arbennig iawn.

2. Chwarae "Tŷ"

Byddwch angen tŷ doliau a phethau i roi ynddo, neu bethau chwarae tŷ, e.e. doliau, llestri plastig, brwsh, dillad a thegan haearn smwddio. Gadewch i'r plant chwarae gyda'r tŷ am gyfnod. Sgwrsiwch gyda'r plant am eu teuluoedd. Pwy sydd â brodyr a/neu chwiorydd? Ydy Nain a Taid yn ymweld â nhw? Beth maent yn hoffi ei wneud gyda'u teulu?

Esboniwch bod ein stori heddiw am deulu arbennig o'r Beibl. Ar ddechrau'r stori roedd y fam yn drist oherwydd nad oedd ganddi blant. Ond, byddwn yn clywed bod diwedd hapus i'r stori hon.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am hanes yr wythnos flaenorol.

3. Rhy fawr? Rhy fach?

Byddwch angen amrywiaeth o ddillad ac esgidiau - rhai sy'n rhy fawr i'r plant, rhai sy'n rhy fach, a rhai sy'n eu ffitio. Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n hoffi cael dillad newydd? Dangoswch y bag o ddillad iddynt a

gofynnwch iddynt ddewis rhywbeth o'r bag i'w wisgo.

Gofynnwch i'r plant a ydynt yn meddwl y bydd y dilledyn yn rhy fawr neu'n rhy fach iddynt? Os yw'r plant yn fodlon, anogwch hwy i wisgo'r dilledyn. Parhewch nes y byddwch wedi didoli'r dillad a phawb wedi cael tro.

Esboniwch wrth y plant bod rhywun yn ein stori heddiw yn cael dillad newydd gan ei fam. Enw'r bachgen ydy Samuel.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am hanes yr wythnos flaenorol.

4. Gêmau didoli

Bydd angen amrywiaeth o eitemau arnoch er mwyn i'r plant gael eu didoli, e.e. gwahanol ffrwythau, set o geir bach, set o greonau (yn rhydd, dim mewn pecyn), set o gwpanau plastig, 3 neu 4 hosan, set o 3 neu 4 maneg. Cymysgwch yr holl eitemau ar y bwrdd o flaen y plant. Gofynnwch i un o'r plant i gasglu set o ffrwythau. Gofynnwch i un arall gasglu set o gwpanau ayyb, nes y bydd yr eitemau i gyd wedi eu gosod mewn setiau. Efallai y gallech greu setiau gwahanol. Beth am set o bethau lliw coch neu sy'n wyrdd? Neu set o bethau i'w gwisgo? Bwriad y gêm yw annog y plant i weld sut y mae pethau'n perthyn. Gofynnwch i'r plant pwy sy'n perthyn i'w teulu?

Esboniwch bod ein stori heddiw am deulu arbennig o'r Beibl. Ar ddechrau'r stori roedd y fam yn drist oherwydd nad oedd ganddi blant. Ond, byddwn yn clywed bod diwedd hapus i'r stori hon.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am hanes yr wythnos flaenorol.



AMSER STORI

Defnyddiwch lyfr stori Beiblaidd i gyflwyno'r stori - gweler y dudalen 'Adnoddau'. Cofiwch adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun tra'n edrych ar y lluniau. Gallwch ddewis un o'r syniadau canlynol i atgyfnerthu'r hanes neu i gyflwyno'r stori, pe baech yn dymuno hynny.

1. Edrychwch ar y lluniau yn 'Atodiad 2'

Efallai yr hoffech eu chwyddo a'u lliwio cyn y wers.

Wrth ddangos y lluniau, gofynnwch gwestiynau i'r plant er mwyn atgyfnerthu'r stori.

Pwysleisiwch y ffaith bod Duw wedi gwrando ar weddiâu Hanna a bod Duw yn gwrando arnom ni hefyd.

2. Bocs Hanna

Bydd angen yr eitemau canlynol arnoch mewn bocs: wyneb trist Hanna (Atodiad 1); dol, wedi'i lapio fel y baban Samuel; darn o ddefnydd plaen, neu grys-T plaen - dyma ddillad newydd Samuel. Adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun gan ddefnyddio'r propiau.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant am hanes yr wythnos flaenorol.

Pwysleisiwch y ffaith bod Duw wedi gwrando ar weddiâu Hanna a bod Duw yn gwrando arnom ni hefyd.

AMSER CREADIGOL

1. Creu "bocs Hanna"

Defnyddiwch Atodiad 3. Torrwch y bocsys allan o flaen llaw. Hefyd, bydd angen "jelly babies" a darnau o ddefnydd arnoch i'w rhoi yn y bocs. Gofynnwch i'r plant liwio'u bocsys yn ofalus. Efallai yr hoffech ddefnyddio "glitter" i'w haddurno. Gwnewch byped bys o Hanna i bawb - defnyddiwch yr wyneb sydd yn 'Atodiad 1' a'i ludio ar gylch o bapur a fydd yn ffitio o amgylch pen bys y plant. Rhowch y pyped yn y bocs gyda'r "jelly baby" - y baban Samuel, a darn o ddefnydd - dillad newydd Samuel.

Ailadroddwch yr hanes tra bod y plant yn tynnu'r propiau o'r bocs a'u dangos yn y manau perthnasol o fewn y stori.

2. Dillad newydd i Samuel

Defnyddiwch 'Taflen Samuel'. Gadewch i'r plant liwio gwallt a chroen Samuel. Gludiwch ddarnau o ddefnydd/papur brown golau ar ei diwnig.

Trafodwch gyda'r plant y ffaith bod Samuel yn byw yn y Tabernacl (dyna oedd enw'r capel yn amser Samuel) ac yn helpu Eli, a sut y byddai wedi edrych ymlaen at weld ei rieni yn dod i'w weld ac yn dod â dillad newydd iddo.

3. Amser Gweddi

Defnyddiwch 'Atodiad 4'. Torrwch y ddau gylch allan a'u lliwio. Gadewch i'r plant ludio sgleiniau ar y cylch uchaf o amgylch y geiriau "Siarad gyda Duw." Gosodwch un ar ben y llall gyda 'phin hollt'. Trowch y cylchoedd er mwyn dangos y lluniau sydd isod. Esboniwch y gallwn siarad â Duw unrhyw adeg o'r dydd. Darllenwch y geiriau gyda'r plant gan esbonio bod Duw yn hoffi ein clywed yn siarad gydag Ef. Dylem ddweud "Sori" wrth Dduw am y pethau drwg yr ydym yn eu gwneud; Dylem ddweud "Diolch" i Dduw am yr holl bethau da sydd gennym a dylem ofyn am bethau i Dduw drwy ddweud "Plîs."

Rhowch enghreifftiau syml i'r plant, e.e. "Sori Dduw am....", "Diolch Dduw am.....", "Plîs Dduw, wnei di....." ac yna defnyddiwch y cylchoedd yn eich amser gweddi gyda'r plant gan wneud awgrymiadau i bob categori.

4. Taflenni gwaith.



AMSER CANU A GWEDDÏO

1. Rhigwm

Mae'r Arweinydd yn adrodd y ddau gymal cyntaf ac mae'r plant yn ymateb, "O mae Hanna'n drist" gan greu wynebâu trist, neu yn yr ail bennill, "O mae Hanna'n hapus" gan greu wynebâu hapus.

'Dyma Hanna. Does dim plant ganddi.

O mae Hanna'n drist.

Dyma Hanna. Mae pobl yn chwerthin am ei phen.

O mae Hanna'n drist.

Dyma Hanna. Mae'n siarad gyda Duw.

O mae Hanna'n drist.

Dyma Hanna. Mae hi wedi cael baban bach.

O mae Hanna'n hapus.

Dyma Hanna. Mae'n chwarae gyda Samuel.

O mae Hanna'n hapus.

Dyma Hanna. Mae'n diolch i Dduw am ateb ei gweddi.

O mae Hanna'n hapus.'

2. Cân

Ar y dôn "Cariad Iesu Grist", Caneuon Ffydd - 387.

1. Siarad gyda Duw, Siarad gyda Duw,
Siarad gyda Duw, Dyma beth sy'n dda.

2. Diolch Dduw a wna, Diolch Dduw a wna,
Diolch Dduw a wna. Dyma beth sy'n dda.

3. Sori Dduw, rwy'n drist, Sori Dduw, rwy'n drist,
Sori Dduw, rwy'n drist. Dyma beth sy'n dda.

4. Plîs Dduw a gaf?, Plîs Dduw a gaf?,
Plîs Dduw a gaf?, Dyma beth sy'n dda.

3. Gweddi

Defnyddiwch y cylchoedd gweddi o 'Amser Creadigol'. Os nad ydych wedi defnyddio'r syniad hwn gyda'r plant, gallwch greu cylch mwy i'w ddefnyddio i arwain eich gweddiâu fel yr esbonnir uchod.

AMSERLEN

Wythnos 1:

Amser Chwarae 4;
Stori (o'r 'Beibl Bach i Blant'),
Amser Creadigol 2,
Rhigwm.

Wythnos 2:

Amser Chwarae 1;
Stori 1,
Amser Creadigol 3,
Gweddi.

Wythnos 3:


Amser Chwarae 3;
Stori 2,
Amser Creadigol 1,
Cân.





Taflen 1
Samuel: 1 Samuel 1-3


Ydych chi'n cofio hanes Hanna a Samuel?
Lliwiwch y lluniau'n ofalus a dweud y stori eich hun.






Taflen 2 Samuel: 1 Samuel 1-3

Aeth Samuel i fyw i'r Tabernacl gydag Eli.
Daeth Hanna â dillad newydd iddo bob blwyddyn.
Gludwch ddarnau o ddefnydd neu bapur lliw i greu dillad hardd i Samuel.






Gweddi cyn mynd i'r gwely.
Diolch Dduw am edrych ar fy ôl heddiw.
Sori am y pethau drwg wnes i.
Plîs edrych ar ôl pawb rydym yn eu caru.
Amen.



Oed 6 - 11

Samuel: 1 Samuel 1-3



Amcanion

- ❖ i gyflwyno hanes bywyd cynnar Samuel
- ❖ i ystyried pwysigrwydd gweddi
- ❖ i ystyried sut y gallwn glywed Duw yn siarad heddiw

Adnod y gyfres

“Daliwch ati i weddio.” 1 Thesalonïaid 5:17

Cân i'r gyfres

“Gweddi sydd fel codi ffôn.” Tyrdd i ddathlu

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Gêmau gwrando

“Soch, soch.”

Mae'r plant yn eistedd ar gadeiriau mewn cylch. Mae un gwirfoddolwr yn cael mwgwd dros ei ll/lygaid. Ar ôl cael ei throelli, mae'r gwirfoddolwr yn cael ei rhoi i eistedd ar lin rhywun. Mae'r person hwnnw'n gwneud sŵn “Soch, soch,” gan geisio newid ei ll/lais. Mae'r person gyda'r mwgwd yn ceisio dyfalu ar lin pwy mae'n eistedd. Chwaraewch sawl tro. Pwysleisiwch bwysigrwydd gwrando'n ofalus er mwyn nabod y llais!

“Rhowch gân i mi.”

Cystadleuaeth ganu.

Gofynnwch am wirfoddolwr/wyr sydd yn hoff o ganu. Un ar y tro gofynnwch iddynt ganu cân boblogaidd e.e. hwiangerdd (paratowch gofiau o'r geiriau os bydd angen). Rhaid iddynt ganu'r gân wrth wrando ar ddarn hollol wahanol o gerddoriaeth trwy glustffonau ar beiriant MP3 neu gryno ddisg. Rhowch wobwr i'r cystadleuydd wnaeth yr ymdrech orau. Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant o'r hanes.





FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

2. Cwis cyfathrebu

Rhannwch y plant i dimoedd ar gyfer y cwis canlynol. Esboniwch eich bod yn mynd i roi cliwiau iddynt er mwyn iddynt ddyfalu'r modd penodol o gyfathrebu. Gofynnwch i un tîm ateb ar y tro. Rhewch un cliw ar y tro. Os ydynt yn dyfalu yn gywir pa fodd o drafnidiaeth sy'n cael ei ddisgrifio ar ôl clywed y cliw cyntaf yn unig, byddant yn ennill 10 pwynt; ar ôl clywed yr ail gliw, 5 pwynt; ar ôl y trydydd cliw, 3 phwynt.

LLEFARU

1. Fi yw'r ffurf hynaf o gyfathrebu
2. Mae bron pawb yn fy nefnyddio
3. Mae sawl fersiwn ohonof, ond nid yw'n bosibl fy nefnyddio i gyfathrebu bob amser.

E-BOST

1. Dyfeisiwyd fi lai na 30 mlynedd yn ôl
2. Gallaf gyfathrebu'n sydyn â phobl dros y byd i gyd
3. Mae pobl yn defnyddio cyfrifiaduron i ddanfôn fy negeseuon

CÔD MORSE

1. Dyfeisiwyd fi cyn y radio i ddanfôn negeseuon dros bellter mawr
2. Gallaf gyfathrebu'n sydyn gyda phobl ym mhob rhan o'r byd
3. Mae fy llythrennau yn ddotiau neu yn llinellau

ARWYDDO

1. Ni ellwch fy nghlywed yn cyfathrebu
2. Mae pobl yn defnyddio eu dwylo i gyfathrebu fel hyn
3. Mae pobl fyddar yn fy nefnyddio

TELEDU

1. Cefais fy nyfeisio yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif
2. Mae fy negeseuon mewn lluniau a geiriau

3. Mae gan y rhan fwyaf o bobl set yn eu cartrefi i dderbyn fy negeseuon

Mae gennym lu o ffyrdd o gyfathrebu â'n gilydd ond sut mae Duw yn cyfathrebu gyda ni? Gadewch i'r plant gynnig eu syniadau. Esboniwch y byddwn yn gweld Duw yn siarad gyda rhywun yn ein stori wir o'r Beibl heddiw mewn ffordd ryfeddol.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant o'r hanes.

3. Teulu Dedwydd

Paratowch set o luniau anifeiliaid i'r grŵp (gweler Atodiad 1) a rhannwch y lluniau fel bod llun gan bawb a bod o leiaf un person arall gyda'r un llun. Gyda grŵp o blant hŷn gellwch ysgrifennu enwau'r anifeiliaid ar ddarnau o bapur. Nod y gêm yw dod o hyd i aelodau eraill o'ch "teulu" drwy wneud sŵn yn unig.

Esboniwch fod ein stori wir o'r Beibl heddiw am deulu arbennig a sut y gweddïodd un aelod o'r teulu am rywbeth pwysig iawn.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant o'r hanes.

4. Mae gen i neges i ti!

Esboniwch wrth y plant eich bod yn mynd i roi neges iddynt a bod yn rhaid iddynt wrando yn ofalus ac yna wneud beth sy'n ofynnol iddynt e.e. "Ewch at y piano ac edrychwch o dan y sgarff." Sibrydwch neges i'r plant un ar y tro. Cofiwch ganmol y plant am wrando yn dda ac am fod yn ufudd. Efallai yr hoffech guddio fferins mewn llefydd gwahanol i'r plant ddod o hyd iddynt.

Esboniwch fod ein stori heddiw am ddau berson yn arbennig - rhywun a oedd yn siarad gyda Duw a rhywun arall a oedd yn gwrando ar Dduw.

Neu, defnyddiwch y syniad yma i atgoffa'r plant o'r hanes.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio un o'r llyfrau yn y rhestr Adnoddau ac wedyn dewiswch un o'r syniadau canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch un o'r syniadau canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

1. Creu llyfr stori

Defnyddiwch Atodiad 2 - pob llun wedi'i chwyddo, os yn bosib. Gofynnwch i'r plant i liwio'r lluniau er mwyn creu llyfr hanes Hanna a Samuel. Ar ôl i bawb orffen, rhowch y tudalennau at ei gilydd gyda styffylwr mewn trefn a defnyddiwch eich "llyfr" i adrodd yr hanes. Gofynnwch i un o'r plant i greu clawr i'r llyfr gyda'r teitl "Hanes Hanna a Samuel."

2. Pwy ddywedodd beth?

Defnyddiwch luniau Hanna, Elcana, Eli a Samuel o Atodiad 5. Hefyd, byddwch angen y geiriau canlynol wedi'u hysgrifennu mewn swigod siarad. Darllenwch bob swigen yn eu tro gyda'r plant a gadewch iddynt benderfynu pa un o'r cymeriadau a ddywedodd:

1. Rydw i mor drist does dim plant gennyf. Mae Peninna yn chwerthin arnaf yn gas.
2. O Dduw, os wyt Ti'n rhoi babi i mi, dw i'n addo ei roi yn ôl i Ti.
3. Dyma Samuel i ti, Eli. Rwy'n ei fenthyg i'r Arglwydd am byth.
4. Dewch, mae'n amser i ni fynd i Seilo, i'r Tabernacl.
5. Hanna, pam wyt ti'n torri dy galon? Rwy'n dy garu.

6. Arhoswch adref nes bydd y plentyn yn ddigon hen i ddod gyda ni.

7. Wyt ti wedi bod yn yfed gormod o win?

8. Dos yn ôl i dy wely – nid fi oedd yn galw.

9. Dywed wrth yr Arglwydd tro nesaf, "Dyma dy was yn gwranddo."

10. Diolch am fy nillad newydd, Mam.

11. Dyma fi, Eli. Beth wyt ti eisiau?

12. Dyma dy was yn gwranddo.

3. "Y Gadair Boeth" -

cyfweliadau gyda chymeriadau o'r stori.

Rhannwch y grŵp i barau/grwpiau llai a rhowch un o'r cymeriadau iddynt. Gweler Atodiad 6. Os mai dim ond grŵp bach sydd gennych, cewch weithio drwy'r cymeriadau gyda'ch gilydd. Ar ôl i'r plant gael cyfle i ddarllen eu darnau gofynnwch iddynt benodi un o'r grŵp i chwarae rôl y cymeriad. Gofynnwch i'r cymeriad eistedd yn y "gadair boeth" a gofynnwch gwestiynau iddynt mewn dull cyfweliad teledu.





FFYRDD I GYMHWYSO'R STORI

Cwis "Adnabod."

Meddyliwch o flaen llaw am frawddegau i ddisgrifio 3 person sy'n adnabyddus i'r plant.

Gofynnwch i'r plant ddyfalu pwy yr ydych yn ei ddisgrifio. Darllenwch un frawddeg ar y tro.

Trafodwch gyda'r plant sut ydym yn dod i adnabod pobl - trwy dreulio amser gyda nhw, trwy ofyn cwestiynau iddynt, trwy eu gwyllo, trwy siarad â nhw, neu os ydym yn sôn am bobl sydd wedi marw, trwy ddarllen amdanynt a siarad gyda phobl oedd yn eu hadnabod.

Trafodwch wedyn sut y bu Duw yn siarad gyda Samuel. Sut mae Duw yn siarad gyda ni heddiw? Sut ydyn ni'n gallu dod i adnabod Duw?

Edrychwch ar y daflen "Dwi'n dy 'nabod", gan ateb y cwestiynau sydd arno.

SYNIADAU CREFFT

Mae'r crefftwaith yn cynnig syniadau i gyflwyno gweddi i'r plant. Y nod yw rhoi fframwaith i'r plant i gynorthwyo eu gweddïau ac i bwysleisio pwysigrwydd gweddi fel modd i ni ddod i adnabod Duw. Trafodwch hyn gyda'r plant wrth weithio.

1. Dwylo gweddigar

Defnyddiwch Atodiad 1. Byddwch angen siâp dwylo i bob plentyn, cerdyn i fod yn gefndir, tyllwr, gwllân lliwgar, tâp selo.

Gadewch i'r plant dorri allan y siâp dwylo a'i ludo ar y cerdyn. Gwnewch dyllau ar bedwar ochr y cerdyn. Torrwch y gwllân a rhowch damaid o dâp selo ar un pen. Mae'r plant yn pwytho'r gwllân drwy'r tyllau, fel y dangosir. Gellir copio'r adnod o dan y darlun. Rhowch ddau dwll er mwyn gosod gwllân i hongian y llun. Trafodwch beth ddylem siarad â Duw amdano. Atgoffwch y plant o weddi Hanna - roedd Hanna yn rhannu ei thristwch gyda Duw, yn gwneud cais wrtho, ac yn diolch iddo, wrth iddi gofio Ei fendithion. Esboniwch ein bod yn gallu dilyn esiampl Hanna - gallwn siarad gyda Duw pan ydym yn drist, gallwn ddod â cheisiadau i Dduw, dylwn ddiolch iddo a dylwn gyffesu ein pechod wrtho. Cyflwynwch y gair 'moli' i'r plant gan esbonio ystyr y gair a pha mor bwysig yw hi ein bod yn moli Duw ac nid dim ond gofyn i Dduw am bethau. Ychwanegwch y geiriau "Sori" "Plîs" "Diolch" "Moli" i'r cerdyn gan ddefnyddio pinnau ffelt neu binnau sgleiniog. Gofynnwch i'r plant i gadw'r llun yn rhywle ble byddant yn cael eu hatgoffa i weddio. Anogwch y plant i siarad â Duw cyn mynd i'r gwely bob nos, ac yn y bore, cyn iddynt godi o'r gwely. Trafodwch destunau posibl i'w gweddïau.



SYNIADAU CREFFT

2. Bocs gweddïau

Defnyddiwch Atodiad 3 wedi'i gopïo ar gerdyn. Byddwch hefyd angen glud a'r eitemau i roi mewn yn y bocs os dymunir.

Torrwch allan y bocsys, un i bob plentyn. Wedyn, gofynnwch i'r plant gopïo'r geiriau canlynol a gwneud y lluniau, ar ochrau'r bocsys - un i bob ochr: Sori, Plîs, Diolch, llun Beibl, lluniau o bobl sy'n sôn wrthym am Iesu a Duw. Gadewch i'r plant addurno'r bocsys a thrafodwch gyda'r plant beth ddylwn ddweud wrth Dduw wrth inni weddïo a sut ydym yn dod i wybod mwy am Dduw drwy'r Beibl (a phobl sy'n ein helpu i ddeall y Beibl). Gadewch i'r plant ysgrifennu gweddi eu hunain a'i rhoi yn y bocs, neu gallwch roi eitem i'w hatgoffa o hanes Hanna a Samuel (wyneb trist, "jelly bean", darn o ddefnydd). Anogwch y plant i siarad â Duw cyn mynd i'r gwely bob nos, ac yn y bore, cyn iddynt godi o'r gwely. Trafodwch destunau posibl i'w gweddïau ac anogwch y plant i ychwanegu gweddïau eraill yn ystod yr wythnos.



3. Baner "Gweddi sydd fel codi ffôn."

Byddwch angen darn o ddefnydd/cerdyn yn gefndir, y geiriau "Gweddi sydd fel codi ffôn" ar bapur lliw yn barod i'w ludio ar y cefndir a llun ffôn, yn barod i'w liwio neu i'w ddefnyddio fel templed ar gyfer defnydd (gweler Atodiad 1). Byddwch hefyd angen glud cryf, papur lliw a 4 swigen siarad gyda'r geiriau "Sori," "Diolch," "Plîs," "Moli."

Rhowch ddau ddarn o bapur gwahanol liw maint A5 i'r plant (h.y. hanner tudalen A4), a gofynnwch iddynt dorri allan siâp eu dwylo - ond gyda'r bysedd yn dynn wrth ei gilydd ac nid ar led. Os bydd y plant yn rhoi un llaw ar ben y llall byddant yn creu siâp dwylo yn gweddïo (gweler Atodiad 1). Gadewch i'r plant ludio'u dwylo ar y cefndir - cofiwch osod llun y ffôn yn y canol yn gyntaf. Canwch y gân "Gweddi sydd fel codi ffôn" gyda'ch gilydd a thrafodwch beth ddylwn ddweud wrth Dduw pan fyddwn yn gweddïo. Atgoffwch y plant o weddi Hanna. Roedd Hanna yn rhannu ei thristwch gyda Duw, yn gwneud cais iddo, ac yn diolch iddo, wrth iddi gofio Ei fendithion. Esboniwch ein bod yn gallu dilyn esiampl Hanna - gallwn siarad â Duw pan fyddwn yn drist, gallwn ddod â cheisiadau i Dduw, dylem ddiolch Iddo a'i foli a dylem gyffesu ein pechod wrtho. Ychwanegwch y swigod i'r faner. Anogwch y plant i siarad â Duw cyn mynd i'r gwely bob nos, ac yn y bore, cyn iddynt godi o'r gwely. Trafodwch destunau posibl i'w gweddïau. Rhowch y faner i fyny i bawb ei gweld ac i'ch atgoffa o'r hanes a phwysigrwydd gweddi.



GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Dysgu adnod

Byddwch angen chwaraewr CDd a geiriau'r adnod wedi'u hysgrifennu ar blatiau papur, un gair ar bob plât.

Dangoswch yr adnod i'r plant a'i darllen. Esboniwch wrth y plant mai dyma eiriau Paul, un o arweinwyr pwysig yn yr Eglwys ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r nef, i'r Cristnogion yn Thesalonica. Mae Paul yn ein hannog i weddio drwy'r amser. Mae'r plant yn sefyll mewn cylch yn dal y platiau sydd ddim mewn trefn. Wrth i'r gerddoriaeth chwarae mae'r plant yn pasio'r platiau o amgylch a phryd mae'r gerddoriaeth yn peidio mae'r plant sy'n dal y platiau yn ceisio sefyll yn nhrefn yr adnod. Chwaraewch fwy nac unwaith fel y bydd y plant i gyd yn cael tro.

Cwis

Defnyddiwch y daflen gwis.

Gêmau

Defnyddiwch un o'r gêmau o'r Adran Gyflwyno'r Thema


Gêm chwiban.

Byddwch angen chwiban a 4 darn o bapur gyda'r rhifau 1, 2, 3, 4. Rhowch un rhif ymhob cornel o'r ystafell. Mae'r plant yn sefyll yng nghanol yr ystafell. Esboniwch eu bod yn gorfod gwrando'n ofalus wrth ichi chwythu'r chwiban ac wedyn symud i'r gornel berthnasol. Chwaraewch ychydig o weithiau i'r plant ddeall y syniad ac wedyn chwaraewch eto gyda'r person olaf i gyrraedd y gornel yn gorfod eistedd neu gyflawni fforffed.

GWEDDIAU

Gweddïau

1. Defnyddiwch beth grëwyd yn ystod Amser Crefft, gan ofyn i'r plant weddio yn eu tro
2. Paratowch Droellwr Gweddi syml o flaen llaw. Gadewch i'r plant ei droelli yn eu tro ac i ddweud gweddi syml sy'n cynnwys y gair a laniwyd arno. Rhowch esiampl i'r plant yn gyntaf.





DRAMA

Mae'r gweithgareddau dramatig yn canolbwyntio ar sut y dylem wrando ar Dduw, gan ddilyn esiampl Samuel. Cymerwch bob cyfle i bwysleisio sut y gallwn glywed Duw yn siarad â ni heddiw a pha mor bwysig yw hi ein bod yn ymateb i Dduw drwy fod yn ufudd i'w Air.

1. Barod i wrando? – Hanesion pobl a wrandawodd ar Dduw

Mae'r Beibl yn llawn o hanesion Duw yn siarad gyda gwahanol bobl. Roedd rhai yn gwrando arno, doedd eraill ddim. Mae'r hanesion canlynol yn cynnwys rhai esiamplau

Rhannwch eich grŵp i grwpiau llai gydag un hanes i bob grŵp. Gadewch i'r plant drafod beth maen nhw'n gofio o'r hanes a'i ddarllen wedyn o Feibl Bach i Blant. Oedd y person yn y stori yn gwrando ar Dduw neu beidio? Gofynnwch iddynt actio allan y stori. Gwnwch amser i bawb wyllo "perfformiadau" ei gilydd.

Adda

Noa

Moses

Jona

Pedr

Saul/Paul

Ioan



2. Darlleniad Dramatig – hanes Hanna a Samuel

Mae'n bosibl defnyddio'r sript mewn dwy ffordd. Gyda grŵp mawr gallwch rannu'r plant fel eu bod yn gweithio ar un olygfa yn unig. Dylech dreulio amser i feddwl am ymddygiad pob cymeriad, ac efallai yr hoffent adio deialog. Gyda grŵp llai, gall yr un plant gymryd rôl yr un cymeriad trwy'r darlleniad cyfan. Eto, dylid cymryd amser i feddwl am gymeriad ac osgo pob cymeriad. Gadewch i'r plant awgrymu symudiadau addas i gyd-fynd a'r darlleniad. Gellwch ddefnyddio sawl darllenydd, yn ôl faint o blant sydd gennych.

AMSERLEN

Awgrym am ddefnydd o'r adnoddau

Wythnos 1

Cyflwyno'r Thema 1,
Cyflwyno'r Stori 1,
Dysgu'r Adnod,
Taflen Waith

Wythnos 2

Cyflwyno'r Thema 4,
Crefft,
Gweddi 1

Wythnos 3

Cyflwyno'r Thema 2,
Drama,
Gêm,
Gweddi 2

2. Darlleniad Dramatig – hanes Hanna a Samuel

Golygfa 1: (Elcana, Peninna, Hanna)

Darllenydd: Amser maith yn ôl, yng ngwlad Israel, roedd dyn o'r enw Elcana. Roedd Elcana yn ddyn duwiol ac roedd ganddo ddwy wraig, Peninna a Hanna.

Darllenydd: Yn anffodus, nid oedd bywyd teuluol yn hapus. Roedd gan Peninna blant ond doedd gan Hanna ddim ac roedd Peninna braidd yn gas wrthi, yn chwerthin ar ei phen hi.

Darllenydd: Ceisiodd Elcana gysuro ei wraig drwy air a gweithred. Ond, doedd dim yn helpu Hanna druan.

Golygfa 2: (Elcana, Hanna, Eli)

Darllenydd: Bob blwyddyn byddai Elcana a'i holl deulu yn mynd i Seilo, i'r Tabernacl er mwyn addoli Duw a gwneud offrwm. Roedd hi fel amser gwyliau i'r teulu.

Darllenydd: Yr offeiriad adeg hynny oedd Eli. Byddai Eli yn eistedd wrth ddrws y Tabernacl.

Darllenydd: Un diwrnod aeth Hanna i'r Tabernacl i weddïo. Yn ei dagrau, galwodd ar Dduw i ateb ei gweddi am fabi. Gwnaeth addewid difrifol wrth Dduw.

Darllenydd: Addawodd i Dduw os byddai hi'n cael babi, y byddai'n rhoi'r babi yn ôl i Dduw pan yn ddigon hen, fel y byddai'n gweithio i Dduw am weddill ei oes.

Darllenydd: Gwylodd Eli wrth i Hanna weddïo. Roedd e'n meddwl ei bod hi wedi meddwi ac aeth ati i'w cheryddu.

Darllenydd: Ar ôl clywed esboniad Hanna, dymunodd Eli yn dda iddi, gan obeithio y byddai Duw yn gwrando ac yn ateb ei gweddi.

Golygfa 3: (Elcana, Hanna, Samuel, Eli)

Darllenydd: Aeth Elcana a'i deulu yn ôl adref i Rama. Ymhen amser, cafodd Hanna ddymuniad ei chalon – cafodd fachgen bach o'r enw Samuel.

Darllenydd: Tyfodd Samuel a daeth yn amser i Hanna gadw ei haddewid. Aeth Hanna, gydag Elcana, yn ôl i Seilo i'r Tabernacl at Eli, ond y tro hwn, gyda Samuel.

Darllenydd: Oedd Eli yn cofio'r wraig hon - yr un yr oedd e'n tybied oedd wedi meddwi? Dyma Hanna yn cyflwyno ei hun a Samuel i Eli gan atgoffa Eli o'r addewid yr oedd wedi ei wneud cyn geni Samuel.

Darllenydd: Roedd calon Hanna yn llawn diolch i Dduw am roi Samuel iddi hi er mor anodd oedd ei adael gydag Eli a mynd adref hebdo.

Golygfa 4: (Hanna, Samuel, Eli)

Darllenydd: Arhosodd Samuel gydag Eli. Roedd llawer i wneud o amgylch y Tabernacl, yn croesawu'r ymwelwyr, yn edrych ar ôl yr aberthau a chadw'r lle yn daclus.

Darllenydd: Bob blwyddyn daeth Hanna ac Elcana i weld Samuel. Daethant â dillad newydd iddo – roedd e'n tyfu ac yn dysgu llawer gan Eli am waith Duw.

Darllenydd: Un noson, roedd Samuel ac Eli wedi mynd i'w gwelyau. Deffrodd Samuel. Oedd Eli wedi galw arno? Cododd, ac aeth at Eli. "Beth sy' Eli?" gofynnodd.

Darllenydd: Nid oedd Eli wedi galw ar Samuel o gwbl. Danfonodd e'n ôl i'w wely. Ond, clywodd Samuel rhywun yn ei alw'r ail waith ac unwaith eto aeth at Eli i weld beth oedd yn bod.

Darllenydd: Ar ôl i hyn ddigwydd tair gwaith, dyma Eli yn sylweddoli mae'n rhaid bod Duw yn siarad gyda Samuel. Felly, dywedodd wrth Samuel, "Y tro nesaf glywi di rhywun yn galw dy enw, dywed "Llefara Arglwydd, mae dy was yn gwrando."

Darllenydd: Aeth Samuel yn ôl i orwedd ac yn wir, ar ôl ychydig clywodd Duw yn ei alw unwaith eto. Atebodd fel yr oedd Eli wedi dweud wrtho.

Darllenydd: Dyma'r tro cyntaf i Dduw siarad â Samuel, ond nid y tro olaf. Roedd Duw yn mynd i siarad â phobl Israel sawl gwaith trwy Samuel yn y dyfodol.



Taflen Gwis Samuel: 1 Samuel 1-3



1. Beth oedd enw'r offeiriad yn y deml?

2. Sut feibion oedd ganddo?

3. Pam oedd Hanna yn drist?

4. I ble'r aeth Hanna ar ôl bwyta'r wledd?



5. Beth addawodd hi i Dduw?

6. Beth ddywedodd Eli wrth Hanna fyddai'n digwydd?

7. Pa enw roddodd Hanna ar ei mab?

8. I ble'r aeth Hanna â Samuel pan oedd yn ddigon hen?



9. Beth wnaeth Samuel pan glywodd rywun yn galw arno?

10. Beth ddywedodd Eli wrth Samuel am ei wneud pan ddeallodd mai Duw oedd wedi bod yn galw?



11. Beth oedd neges Duw i Samuel?

12. Sut wnaeth Samuel ddatblygu i fod yn berson arbennig?



1. Eli. 2. Meibion drwg. 3. Am nad oedd ganddi blant. 4. I'r deml. 5. Y byddai'n rhoi ei mab i weithio yn nheml Duw. 6. Y byddai Duw'n gwrrando ar ei gwedd. 7. Samuel. 8. I'r deml. 9. Mynyd at Eli. 10. Mynyd yn ôl a dwed wrth Dduw am siarad gan ei fod yn gwrrando. 11. Fod meibion Eli'n ddrwg a'i fod am eu costbi. 12. Clywodd Duw'n siarad yn aml ac roedd o'n ufudd i Dduw ac yn dysgu eraill y ffordd iawn i fyw.

Atebion



Samuel

S	I	D	D	O	B	M	A	U	F	U	Z	K	C	G	J	Z	G	I	R	O	O	I
U	H	W	F	O	A	C	T	M	T	R	O	L	I	E	S	V	V	H	N	Z	U	P
H	E	D	T	E	M	L	Z	C	B	V	C	L	D	G	W	A	S	D	O	L	K	X
V	X	F	Y	O	J	U	M	Y	R	F	F	O	G	Z	G	H	R	X	O	B	G	Y
A	I	K	A	R	G	L	W	Y	D	D	N	F	N	E	M	E	T	U	Y	R	D	F
D	C	D	C	N	B	B	G	O	O	G	F	H	V	B	B	O	N	L	S	M	O	D
D	R	T	O	D	X	O	O	U	Z	R	B	X	Y	A	I	N	D	I	P	L	B	Y
O	L	E	Z	D	A	I	R	I	E	F	F	O	W	D	W	H	R	L	P	W	M	E
L	O	C	T	T	S	A	A	B	A	U	O	I	D	N	T	F	A	M	G	A	I	V
I	J	I	S	Y	W	N	O	C	W	H	H	U	I	E	D	N	B	R	I	S	N	S
B	G	A	G	U	A	L	G	Y	O	Z	G	B	A	D	T	B	H	G	K	F	R	E
U	X	D	D	C	H	E	R	L	B	T	C	I	K	G	B	D	G	C	N	B	B	J
V	C	G	L	X	G	Z	Y	F	A	N	L	O	B	P	L	L	E	F	A	R	A	L
T	O	E	J	B	N	W	A	D	R	O	F	F	I	L	S	M	E	C	S	M	L	Y
T	B	Z	R	T	X	C	N	R	D	R	E	M	P	D	E	X	V	R	T	I	I	K
E	G	C	F	Z	U	V	H	Y	A	H	O	G	O	G	D	U	W	N	U	O	B	T
C	L	A	V	O	W	O	W	B	X	D	U	D	O	K	J	E	M	G	Y	O	N	F
V	P	I	M	M	V	F	E	J	X	D	M	W	G	T	V	N	W	A	N	N	D	A
A	M	A	D	P	F	R	G	P	C	Y	R	B	X	J	A	A	J	G	S	D	O	H
K	T	T	U	O	T	C	M	D	W	B	E	P	E	G	M	N	L	W	A	V	N	F
K	T	W	R	H	J	O	B	B	P	X	W	G	K	H	H	N	J	I	F	U	H	O
U	O	P	R	E	O	I	W	J	W	E	X	D	M	T	W	A	Z	T	X	V	B	Z
F	K	M	P	W	A	Y	K	D	K	M	B	O	A	O	V	H	Z	E	R	O	Z	Y

SAMUEL

ELI

PROFFWYDOLIAETH

OFFEIRIAD

GENI

ABERTH

GWAS

ELCANA

GWEDDÏO

PLANT

DUW

SEILO

TEML

DATGUDDIO

HANNA

ARGLWYDD

WYLO

ADDOLI

OFFRYMU

LLEFARA



Dwi'n dy 'nabod...

Tynna lun o dy ffrind gorau. Beth sydd orau ganddynt? Beth mae nhw'n gasau?

Tynna luniau neu ysgrifenna cymaint o eiriau a fedri i ddisgrifio dy ffrind.

'Nabod Duw

Beth ydym yn gwybod am Dduw? Beth sydd orau ganddo? Beth sy'n gas ganddo?

Sut ydym yn gallu dysgu mwy am Dduw? Tynna luniau neu ysgrifenna cymaint o eiriau fedri di i ateb y cwestiynau.



Taflen 6

Samuel: 1 Samuel 1-3

Ar ddechrau'r stori yn llyfr Samuel, roedd Hanna yn drist iawn am nad oedd hi'n medru cael plant. Ond mae diwedd hapus i'r stori.

Hanna'n Drist

Hanna'n Hapus

Mae Duw yn barod i wrando ar ein gweddiau ni hefyd. Ysgrifenna weddi fer am bob un o'r rhain....

Fi fy hun

Fy nheulu

Fy ffrindiau

Pobl mewn angen

Cenhadon



Taflen 7 Samuel: 1 Samuel 1-3



Yn aml gallwn siarad â phobl ond nid ydynt yn gwranddo arnom. Mae Duw yn gwranddo ar bob gweddi fach. Ysgrifennwch weddi gan ddefnyddio y teitlau isod i'ch helpu. Cofiwch ddiolch i Dduw am Ei holl ddaioni tuag atom ni.

Sori
Dduw am...

Dioch
Dduw am...

Plis Dduw
wnei di...



Taflen 8 Samuel: 1 Samuel 1-3



Torrwch allan y swigod siarad a'u gludo wrth y person

Diolch am fy
nillad newydd,
Mam.

Dewch, mae'n
amser i ni fynd i
Seilo, i'r
Tabernacl.

Dyma dy was yn
gwrando.

Hanna, pam wyt ti'n
torri dy galon?
Rwy'n dy garu.

Rydw i mor drist am
nad oes gennyf blant.
Mae Peninah yn
chwerthin arnaf yn gas.

O Dduw, os wyt
Ti'n rhoi babi i mi,
dw i'n addo ei roi
yn ôl i Ti.

Dos yn ôl i dy
wely - nid fi
oedd yn galw.

Wyt ti wedi bod
yn yfed gormod
o win?



Amcanion

Wythnos 1: Beth yw gweddi? Dysgu o esiampl Hanna.

Wythnos 2: Pam fod y Beibl yn bwysig? Dyma sut y mae Duw yn siarad gyda ni heddiw.

Wythnos 3: Sut mae'r Beibl yn ein helpu ni heddiw? Beth yw rôl yr Ysbryd Glân i'n helpu i ddeall gair Duw?

Wythnos 1 (1 Samuel 1 a 2)

Beth yw gweddi?

Beth a ddysgwn ni o esiampl Hanna?

Cyflwyno'r thema:

Defnyddiwch un neu'r ddau syniad canlynol, yn dibynnu ar amser.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Darllenwch y sefyllfaoedd canlynol i'r bobl ifanc, un ar y tro. Gofynnwch iddynt ymateb ar ôl pob un, gyda'r geiriau: "Beth sy'n digwydd nesaf?" Ar ôl i chi ateb pob cwestiwn, gofynnwch i'r bobl ifanc, a ydyn nhw erioed wedi bod yn y fath sefyllfa? Wedyn, esboniwch y byddwn yn gweld sut yr ymatebodd Hanna, cymeriad o'r Hen Destament, â hithau wedi profi pob un o'r sefyllfaoedd hyn.

1. Mae rhywun yn yr ysgol yn pigo arnat bob amser egwyl, yn galw enwau arnat a chwerthin am dy ben.

2. Mae pob un o dy ffrindiau yn cael prynu'r cit pêl-droed/esgidiau/dillad diweddaraf, ond mae dy rieni di yn gwrthod - mae angen arbed arian er mwyn cael mynd ar wyliau teuluol.

3. Mae rhywbeth gwerthfawr wedi cael ei dorri yn y tŷ. Mae dy rieni yn dy feio di ar gam ac yn bwriadu dy gosbi.

'Sgidiau pwy?

Gosodwch gwrs rhwystrau syml yn yr ystafell. Wedyn, gofynnwch am wirfoddolwr i gwblhau'r cwrs tra'n gwisgo esgidiau rhywun arall. Byddai'n hwyl mynd ag esgidiau sydd llawer rhy fawr, e.e. esgidiau glaw neu fŵts. Trafodwch pa mor hawdd/anodd yw hi i gerdded yn esgidiau rhywun arall. Trafodwch yr ymadrodd, "Llenwi esgidiau....", a chyflwynwch yr ymadrodd Saesneg, "Put yourself in their shoes." Trafodwch pa mor bwysig yw hi i ystyried teimladau pobl eraill wrth i ni ymwneud â nhw. Byddwn yn ceisio rhoi ein hunain yn sefyllfa Hanna heddiw, cymeriad o'r Hen Destament a wynebodd sawl anhawster, gan gynnwys cael ei herio a'i chyhuddo o fod yn feddw.

Darllen a deall yr hanes

Cefndir

Mae Duw wedi bod yn dda wrth Ei bobl, Yr Israeliaid. Mae wedi eu hachub o gaethiwd yn yr Aiff a'u harwain i wlad a chartref newydd iddynt, sef Canaan. Maen nhw wedi setlo yn y wlad ac wedi profi cymorth Duw yn gyson, yn eu cynnal ac wrth iddynt wynebu gelynion. Ond, dro ar ôl tro, mae'r Israeliaid yn cefnu ar Dduw, yn anghofio Ei orchmynion ac yn mynnu byw eu ffordd eu hunain, a oedd gan amlaf, yn golygu efelychu eu cymdogion paganaidd. Anfonodd Duw Farnwyr, megis Gideon, i ailgyfeirio'r bobl ato, ac am gyfnod, byddai popeth yn iawn. Ond trwy gyfnod yr Hen Destament, mae hanes yr



Oed 11 - 14

Samuel: 1 Samuel 1-3

Israeliadaid yn un o gefnu ar Dduw, derbyn barn Duw, troi yn ôl mewn edifeirwch, cyfnod o ffyddlondeb cyn gwrthryfela unwaith eto.

Darllen 1 Samuel 1:1-8:

Wedyn, gofynnwch y cwestiynau canlynol. Rhowch y cyfeirnod os bydd angen. Gallwch ddefnyddio'r lluniau o 'Atodiad 5' hefyd -

1. Beth oedd enw'r dyn â dwy wraig yn yr hanes? Adnod 1
2. Pa wraig oedd â phlant? Adnod 2
3. Beth oedd enw'r ail wraig? Adnod 2
4. Beth oedd yn poeni Hanna? Adnod 6
5. Beth oedd y broblem rhwng y ddwy wraig? Adnod 6,7

Darllen 1 Samuel 1:9-11:

Roedd Hanna yn isel oherwydd doedd ganddi ddim plant ac oherwydd triniaeth Peninna ohoni. Cyfeiriwch yn ôl at atebion y bobl ifanc i'r "Cyflwyno'r thema." Sut maent yn ymateb os na fydd pethau yn hawdd yn eu bywydau? Beth oedd ymateb Hanna i'w sefyllfa?

Copiwch y geiriau canlynol ar ddarnau unigol o bapur i ddangos i'r grŵp. Gofynnwch iddynt pa eiriau sydd yn disgrifio gweddi Hanna orau. Arddangoswch y rhain. Ydyn nhw'n gallu awgrymu geiriau eraill?

GONEST	DAGREUOL
O'R GALON	GEIRIAU GWAG
HUNANBWYSIG	DIDEIMLAD
ARWYNEBOL	DIDWYLL

Darllen:

1 Samuel 2:1-3

Mae Hanna yn canmol Duw am y ffordd y mae Ef wedi ateb ei gweddi (mae wedi dod â iachawdwriaeth iddi o'i sefyllfa druenus);

1 Samuel 2:4-8

Mae Hanna yn canmol Duw am Ei gymeriad ac am ei fod yng ngofal popeth;

1 Samuel 2: 9-11

Mae'n canmol Duw am Ei ofal o'i bobl a'r ffordd y mae'n delio gyda'r annuwiol.

Gwnewch yn siŵr bod y bobl ifanc yn deall y gair "canmol"- gellwch gyfeirio at y ganmoliaeth y maent yn ei dderbyn am waith da gan eu rhieni neu eu hathrawon, mae'r 'da' a gyflawnwyd yn cael ei gydnabod.

Ychwanegwch y gair 'MOLI' at y geiriau blaenorol.



Cymhwyso

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydyn nhw'n gweddïo? Am beth y maen nhw'n gweddïo?

Esboniwch fod gweddi yn angenrheidiol i'r Cristion. Dyma sut yr ydym yn cyfathrebu â Duw. Os ydym am ddod i adnabod Duw yn well, mae'n rhaid siarad gydag Ef a rhoi cyfle Iddo siarad â ni.

Mae gweddi Hanna yn esiampl i ni o sut i weddïo.

Edrychwch eto ar y geiriau a ddewiswyd.

Gofynnwch i'r bobl ifanc a oes rhai o'r geiriau yma yn nodweddu ei gweddïau?

Ydy ein gweddïau yn onest? Ydyn ni'n dweud wrth Dduw beth sy'n ein poeni? Gallwn ofyn am gymorth i wynebu sefyllfaoedd anodd.

Ydy ein gweddïau yn ddagreuol? Mae dagrau Hanna yn dangos maint ei phoen. Rydym yn gallu ceisio cysur a help gan Dduw pan fydd pethau wedi'n hypsetio. Neu, weithiau, bydd rhaid i ni gyffesu ein pechodau a cheisio maddeuant Duw, ac mae hyn yn gallu gwneud i ni grïo.

Ydy ein gweddïau o'r galon? Mae'n hawdd ailadrodd yr un hen eiriau ond a ydy'r gweddïau hyn yn wir siarad â Duw. Dylem siarad â Duw



fel ffrind da, un yr ydym yn gallu ymddiried ynddo, un sy'n ein caru ac yn ein deall yn iawn. Ydy ein gweddïau yn ddiwyll? Efallai nad ydym yn sicr o'n perthynas â Duw ond gallwn gyffesu hyn wrtho a gofyn i'r Ysbryd Glân i'n helpu ni i weld yr hyn sydd angen i ni ei wneud i fod yn iawn gyda Duw.

Ydyn ni'n treulio amser yn canmol Duw? Mae llawer o bobl ond yn gweddïo os ydynt angen gofyn am bethau. Mae eu gweddïau fel rhestr siopa. Mae Duw am i ni ddod â cheisiadau ato, ond mae'n bwysig ein bod yn cofio diolch iddo am Ei ddaioni a'i ganmol am yr hyn yw.

Dangoswch y geiriau canlynol, wedi eu copïo, i'r bobl ifanc gan ofyn iddynt aildrefnu'r llythrennau i greu geiriau cyfarwydd. Wedyn, gofynnwch iddynt beth ydi'r cysylltiad rhwng y geiriau?

**NÔFF, OBST –E,
YTHLLYR, LOSDYUM NÔFF,
WSRGS**

Maen nhw i gyd yn ffyrdd o ddanfôn/dderbyn neges, ffyrdd i gadw mewn cysylltiad. Byddwn yn eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a theulu.

Gwnewch y pwynt fod gweddi yn un ffordd bwysig i ni gadw mewn cysylltiad â Duw.

Gweddïau

Gofynnwch i'r bobl ifanc i feddwl a ydyn nhw angen newid y ffordd y maent yn gweddïo. Ydyn nhw angen bod yn fwy gonest? Ydyn nhw angen treulio amser yn canmol Duw? Ydyn nhw angen peidio gweddïo fel "rhestr siopa" yn unig? Gadewch i bob un weddïo yn eu tro, gan ofyn i Dduw am Ei help yn ystod yr wythnos. Rhowch esiamp, e.e. "Duw, dwi wir eisiau Dy adnabod yn well, plis helpa fi i fod yn fwy diolchgar yn fy ngweddïau."

Gweithgaredd ychwanegol

Taflu esgid

Nod y gêm yw cael cymaint â phosib o esgidiau i mewn i focs sydd tua 4 metr i ffwrdd. Mae'r bobl ifanc yn dechrau gyda'u hesgidiau ar eu traed, wedi'u llacio. Maen nhw'n fficio un esgid ar y tro tuag at y boc. Gellwch chwarae fel unigolion neu mewn timau yn erbyn y cloc. Faint o esgidiau fydd yn glanio yn y boc o fewn munud?

Cerdyn atgoffa

Rhowch ddarn bach o gerdyn i bawb. Ysgrifennwch eiriau 1 Thesalonaid 5:17 arno a'u haddurno gyda phinau ffelt ayyb. Gall y cerdyn fod o gymorth i gofio gweddïo yn ystod yr wythnos ganlynol.

Ar gyfer y wers nesaf:

Gofynnwch i'r bobl ifanc i ddod â lluniau o'u hunain yn fabanod i'r wers yr wythnos nesaf - ond i beidio â'u dangos i neb!! Byddai'n syniad i chi gasglu lluniau babanod o bobl y mae'r plant yn eu hadnabod hefyd, rhag ofn i'r plant anghofio.

Wythnos 2

1 Samuel 3

Pam fod y Beibl yn bwysig?

Byddwn yn pwysleisio'r pwysigrwydd o wrando ar lais Duw a bod yn ufudd iddo, fel ag y gwnaeth Samuel - dwy egwyddor sylfaenol ym mywyd y Cristion.

Cyflwyno'r thema

Ateb pwy?

Rhowch ddarn o bapur a beiro i bob person. Gofynnwch iddynt ysgrifennu eu henw ac atebion i'r cwestiynau canlynol arnynt.



Oed 11 - 14

Samuel: 1 Samuel 1-3

1. Pa anifail anwes sydd gennyf?
2. Beth oedd dy hoff degan pan oeddet yn ddeg oed?
3. Pwy yw dy hoff seren ffilm/cymeriad teledu?
4. Beth yw dy hoff fwyd?
5. Beth yw dy syniad o ddiwrnod perffaith?

Casglwch y papurau a darllenwch yr atebion heb ddweud papur pwy sydd gennych. Gofynnwch i'r bobl ifanc i wrando ar yr atebion - peidiwch â gadael i neb weiddi enw allan. Gofynnwch iddynt bwyntio at y person y maen nhw'n credu sydd wedi rhoi'r atebion dan sylw, wedi i chi gyfri i dri. Parhewch nes bod atebion pawb wedi cael eu clywed.

Pwysleiswch ein bod yn adnabod ein ffrindiau yn ddigon da i wybod eu hatebion. Sut ydyn ni'n dod i adnabod person yn dda? Heddiw, byddwn yn ystyried sut y gallwn ddod i adnabod Duw.

Cwis 'pwy 'di pwy'?

Casglwch y lluniau babanod gan y bobl ifanc. Byddai'n syniad i chi gasglu lluniau babanod eraill o flaen llaw hefyd; lluniau ohonoch eich hun neu bobl a fydd yn adnabyddus i'r ieuenctid. Gosodwch y lluniau allan ar fwrdd a gadewch i'r bobl ifanc geisio dyfalu pwy ydi pwy.

Trafodwch yr hyn sydd eu hangen ar blant ifanc i dyfu. Esboniwch wrth y bobl ifanc bod yr Ysbryd Glân yn rhoi bywyd newydd pan fydd rhywun yn dod yn Gristion. Mae'r Beibl yn dweud ein bod yn "tyfu." Yn union fel y mae babanod yn tyfu a datblygu, mae'r Cristion yn dechrau datblygu - yn dysgu sut i fyw i blesio Duw ac yn dod yn debycach i Iesu Grist. Heddiw, byddwn yn ystyried pa mor bwysig yw'r Beibl i'r Cristion a sut y mae'r Beibl yn ein helpu i "dyfu."

Darllen a deall y Beibl

Atgoffwch y plant o'r hanes yr wythnos ddiwethaf. Gallwch ddefnyddio'r lluniau o 'Atodiad 5' i gyflwyno'r prif gymeriadau. Gofynnwch i'r grŵp beth maent yn ei gofio o weddi Hanna - efallai yr hoffech ailddangos y geiriau a ddewiswyd yn ystod y wers.



Cefndir

Dangoswch lun y Tabernacl i'r bobl ifanc. (*Mae lluniau da iawn ym 'Meibl Lliw y Plant'.*) Esboniwch mai dyma oedd man addoli pobl Dduw, yr Israeliaid - doedd y deml ddim wedi cael ei hadeiladu eto. Roedd Arch y Cyfamod yn cael ei gadw yma, a thu mewn iddo, y Deg Gorchymyn. Roedd yr Arch yn arwydd o bresenoldeb Duw ac felly yn arbennig iawn. Byddai'r bobl yn dod i'r Tabernacl i addoli ac i ddod ag offrymau i Dduw. Roedd Duw wedi rhoi cyfarwyddiadau manwl i Moses, flynyddoedd yn ôl, ynglŷn â pha aberthau yr oedd yn rhaid i bawb eu gwneud. Roedd offeiriad yn edrych ar ôl y Tabernacl ac yn derbyn yr offrymau gan y bobl i'w cyflwyno i Dduw. Rydym wedi cyfarfod ag Eli yn y wers yr wythnos ddiwethaf. Doedd Eli ddim yn ddyn ysbrydol iawn ac roedd ganddo ddau fab annuwiol iawn. Roeddent yn camddefnyddio offrymau'r bobl (1 Samuel 2:12-16, 22-25), yn farus ac yn anfoesol. Anfonodd Duw broffwyd i rybuddio Eli y byddai ei feibion yn marw o achos eu pechodau ac y byddai Duw yn codi offeiriad ffyddlon i'w wasanaethu.

Darllen: 1 Samuel 2:27-30

Gofynnwch y cwestiynau canlynol:
Sut siaradodd Duw ag Eli? (adnod 27)
Beth a ddywedodd Duw? (adnod 31)

Darllen: 1 Samuel 3:1-21

Gofynnwch y cwestiynau canlynol:
Sut siaradodd Duw â Samuel? (adnod 4)



Oed 11 - 14

Samuel: 1 Samuel 1-3

Sut oedd Samuel yn gwybod mai Duw oedd yn siarad? (adnod 8)

A wnaeth Samuel ufuddhau? (adnod 19)

Cymhwyso

Byddwch angen y geiriau canlynol wedi'u hysgrifennu yn barod:

YSBRYD GLÂN,

ECOUTE! ('gwrandewch' - Ffrangeg),

OBEDECER ('bod yn ufudd'- Sbaeneg),

FELICE ('hapus'- Eidaleg),

WACHSTUM ('tyfu' - Almaeneg).

Gofynnwch i'r bobl ifanc sut y mae Duw yn siarad â ni heddiw? Gallai'r atebion gynnwys: trwy'r Beibl, trwy'r Ysbryd Glân, trwy ffrindiau ac arweinwyr sy'n Gristnogion.

Esboniwch mai Gair Duw ydy'r Beibl - dyma sut y mae Duw wedi dewis cyfathrebu â ni. Os ydym am wybod beth sydd gan Dduw i'w ddweud, mae angen inni ddarllen y Beibl.

Gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw'n cael trafferth i ddeall y Beibl? Esboniwch fod angen cymorth yr Ysbryd Glân ar bawb er mwyn deall Gair Duw.

Rhowch y geiriau 'YSBRYD GLÂN' ar ben eich Beibl a dangoswch y geiriau eraill – a oes rhywun yn gwybod beth ydy ystyr y geiriau? Cyflwynwch yr ystyron.

Er mwyn deall iaith wahanol mae'n rhaid cael rhywun i gyfieithu. Mae'r Ysbryd Glân yn ein helpu ni i ddeall y Beibl, oherwydd mewn un ystyr, mae'r Beibl wedi cael ei ysgrifennu mewn iaith wahanol - mae'n llyfr sy'n siarad am bethau ysbrydol ac mae'n rhaid cael person sy'n deall pethau ysbrydol i'n helpu. Gall pobl eraill ein helpu hefyd, pobl sydd wedi treulio amser eu hunain yn darllen ac yn astudio ac sydd wedi cael cymorth yr Ysbryd Glân eu hunain.

Edrychwch ar yr adnodau canlynol sy'n siarad am bwysigrwydd cael cymorth yr Ysbryd Glân i

ddeall Gair Duw: 1 Corintiaid 2:10,12,14; Ioan 14:46, 16:13.

Dangoswch lun Eli a llun Samuel (Atodiad 5).

Clywodd Eli lais Duw - ond dewisodd beidio â bod yn ufudd, felly, dewisodd Duw rywun arall i arwain y gwaith pwysig yn y Tabernacl.

Clywodd Samuel lais Duw, er ei fod yn ifanc, roedd yn fodlon gwrandao a bod yn ufudd.

Tebyg i bwy ydyn ni? Eli neu Samuel?

Dangoswch lun baban eto. Os ydym yn darllen y Beibl i glywed Duw yn siarad â ni, ac yna'n ceisio gwneud yr hyn a ddywed Duw wrthym, mae'r Beibl yn dweud y byddwn yn plesio Duw a byddwn yn tyfu fel Cristnogion. Wythnos nesaf, byddwn yn ystyried mwy am hyn.

Gweddïau

Gofynnwch i'r bobl ifanc sut hwyl gawsant wrth weddio yn ystod yr wythnos ddiwethaf? Oedden nhw wedi llwyddo i weddio fel Hanna?

Diolchwch i Dduw am eu llwyddiannau, gofynnwch am gymorth yr Ysbryd Glân, yn yr wythnos sydd i ddod, i weddio fel Hanna. Efallai yr hoffai'r bobl ifanc weddio eu hunain dros ei gilydd.

Gweithgaredd Ychwanegol

Creu Ffeil o Ffeithiau

Rhowch gopi o'r daflen Ffeil o Ffeithiau (Atodiad 6) i bawb ac esbonio sut i'w llenwi. Gludiwch ffeiliau pawb ar ddarn mawr o bapur i greu poster i'w osod ar y wal.


Eglurwch y daw pobl i'n hadnabod ni drwy ddarllen ein ffeiliau, a'r ffordd orau i ddod i adnabod Duw yw trwy ddarllen geiriau Duw Ei hun yn y Beibl.



Wythnos 3

Sut mae'r Beibl yn fy helpu i?

Cyflwyno'r thema



Dilyn y cyfarwyddiadau -

Gofynnwch i'r bobl ifanc i greu eliffant "origami," heb unrhyw help. Dangoswch un yr ydych wedi ei baratoi o flaen llaw iddynt - gweler 'Atodiad 7'. Byddwch angen papur pinc/llwyd a llygaid gwgli (ar gael o siop grefft - opsiynol!).

Wedyn, rhowch gynnig arall arni, y tro yma, gan ddilyn y cyfarwyddiadau.

Pwysleisiwch fod gan y Cristion gyfarwyddiadau manwl gan Dduw yn y Beibl. Mae popeth yr ydym angen ei wybod yn y Beibl. Yn y llyfr yma, mae Duw yn dangos sut y gallwn gael perthynas ag Ef a sut ydym i fyw fel Ei bobl.

Geiriau doeth -

Rhowch ddarn bach o bapur i bawb. Gofynnwch iddynt lenwi'r geiriau coll o'r dywediadau canlynol ar eu papurau.

1. Arfer yw hanner y(*gwaith*);
2. Athro da yw(*amser*);
3. Enw da yw'r..... gorau. (*trysor*);
4. Chwynnwch eich eich hun yn gyntaf. (*gardd*);
5. Gan bwyll mae mynd.....(*ymhell*);
6. Gwell..... na hwyrach. (*hwyr*);
7. Heb ei fai heb ei(*eni*);
8. Mewn undeb mae.....(*nerth*);
9. Nid..... yw popeth melyn. (*aur*);
10. Rhaid yw cyn cerdded. (*cropian*).

Esboniwch fod y dywediadau i fod yn gymorth. Ydy'r bobl ifanc yn credu bod y dywediadau yn rhai doeth?

Mae'r Beibl yn llawn o eiriau doeth – mae'n llawn o eiriau Duw. Heddiw, byddwn yn ystyried yr hyn sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym, a fydd o gymorth i ni yn ein bywydau bob dydd.

Darllen a deall y Beibl

Atgoffwch y grŵp o'r wers yr wythnos ddiwethaf drwy ddangos iddynt y lluniau o Eli a Samuel. Beth oedd yn wahanol yn ymateb y ddau i Dduw?

Yr wythnos hon, byddwn yn ystyried sut y mae'r Beibl yn ein helpu i adnabod Duw a sut y mae'n ein helpu i fyw i'w blesio.

Byddwch angen 'Atodiad 8' wedi'i dorri yn bedwar rhan. Edrychwch am yr adnodau canlynol, un ar y tro, a'u darllen. Gofynnwch i'r grŵp pa lun sy'n cyfateb i'r adnod?

Salm 119:105

1 Pedr 2:2

Effesiaid 6:17

Luc 8:11

Trafodwch sut y mae'r Beibl yn debyg i:

LAMP....

LLAETH....

CLEDDYF.....

HEDYN.

Ychwanegwch yr esboniadau canlynol os bydd angen:

LAMP: byddai'r darllenwyr yn defnyddio lampau olew bob dydd i oleuo eu tai neu wrth symud yn y tywyllwch. Mae'r Beibl yn ein harwain ac yn rhoi goleuni i ni. Mae'n dangos i ni yr hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg. Mae'n bwysig i ni ddarllen y Beibl yn ddyddiol.



LLAETH: dyma fwyd cyntaf pob baban ac mae'n bwysig i blant. Mae'n llawn maeth ac yn gymorth iddynt dyfu a datblygu. Mae darllen y Beibl yn ein helpu i dyfu i ddeall Duw a sut i fyw i'w blesio. Byddwn yn dod yn gryfach yn ein ffydd wrth ddarllen y Beibl.

CLEDDYF: mae'r cleddyf yn cael ei ddefnyddio i ymosod ac i amddiffyn mewn brwydr. Mae 'na frwydr barhaus yn ein bywyd rhwng da a drwg. Byddwn yn cael ein temtio i wneud, i ddweud neu i feddwl pethau drwg, ond trwy ddarllen y Beibl a dysgu adnodau, byddwn yn gallu dewis yr hyn sy'n iawn yng ngolwg Duw.

HEDYN: ar ôl cael ei blannu mae'r hedyn yn egino, yn tyfu ac yn dwyn ffrwyth. Os byddwn yn cymryd Gair Duw i'n calon, bydd pethau newydd yn tyfu ynom – cymeriad newydd, dymuniadau newydd, arferion newydd. Mae geiriau Duw a'r Ysbyrd Glân yn gweithio ynom fel y byddwn yn dod yn debycach i Iesu.

Cymhwyso

Defnyddiwch y Cyflwyniad o'r CD "Sei@" neu'r Daflen Waith "Sei@", sy'n cyflwyno criw o fechgyn o ardal Llansannan sy'n cyfarfod yn wythnosol i astudio'r Beibl.

Gweithgareddau ychwanegol

Gêm: Tyfu yn y Ffydd

Byddwch angen swp o falwms (tua 20) wedi'u chwythu a phin ffelt du.

Gofynnwch i'r grŵp i feddwl am bethau sy'n ein helpu i dyfu fel Cristion ac i ddod yn nes at Dduw, a'u hysgrifennu ar rai o'r balwms. Wedyn, gofynnwch am bethau sy'n ein pellhau oddi wrth Dduw, nad ydynt o gymorth i ni dyfu, a'u hysgrifennu hwythau. Gwnewch ddwy linell baralel gyda thâp masgio ar y llawr, gyda bwlc o tua ddwy fetr rhyngddynt. Rhannwch y grŵp yn ddau dîm i sefyll y tu ôl i'r llinellau yn wynebu ei gilydd. Taflwch y balwms i'r timoedd, ychydig

ar y tro. Nod y gêm yw cael gwared o'r balwms "drwg" o'ch ochr chi i'r ochr arall ac i ddal gafael yn y balwms "da". Chwaraewch am ddau funud cyn cyfri' faint o falwms "da" sydd gan bob tîm - ar ôl tynnu nifer y balwms "drwg."

Cofnod darllen a gweddïo

Rhowch gopi o'r cofnod sydd i'w gael ar Atodiad 1 i bawb ac awgrymwch eu bod yn ceisio cwblhau'r cofnod yn ystod yr wythnos sydd i ddod. Beth am i chi ymuno yn y sialens? Cofiwch holi'r bobl ifanc sut hwyl y maent yn ei gael o dro i dro. Byddai'n syniad i chi ddangos amrywiaeth o lyfrynnau sy'n cael eu cyhoeddi er defnydd pobl ifanc i'w helpu i ddarllen y Beibl yn rheolaidd. Efallai y bydd eich siop lyfrau Gristnogol lleol yn fodlon i chi fenthyg rhai er mwyn eu dangos i'r bobl ifanc, neu efallai yr hoffech brynu copi i aelodau o'r dosbarth. Mae'r 'Youth Bible' yn un da iawn ar gyfer pobl ifanc ac mae 'beibl.net' yn gyfieithiad gwych o'r Testament Newydd ar gyfer pob oedran (ar y rhyngwyd).

Poster

Defnyddiwch yr eliffantod "origami" a'u gludio ar ddarn mawr o bapur lliw. Rhowch deitl, e.e. "Dydy eliffantod ddim yn anghofio - mae Gweddi yn bwysig" neu "Gweddiwch yn ddi-baid."



Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae deg ohonom wedi bod yn cyfarfod dros baned i astudio'r Beibl. Rydym wedi trafod *Beth yw Cristion? Gweddï, y Beibl, bod yn sicr o'n ffydd, rhannu'r efengyl, a'r Ysbryd Glân*. Mae bob sesiwn yn cynnwys sgwrs am ddeg munud ar y pwnc ac amser mewn grwpiau i drafod, i weddïo, i rannu beth sydd wedi digwydd yn ystod yr wythnos ac i annog ein gilydd i fyw i blesio Duw. Mae'r sesiynau wedi bod yn grêt. Mae wedi bod yn ffantastig i weld sut mae Duw wedi ateb ein gweddïau ac i gael y cyfle i ofyn i'n ffrindiau weddïo dros bethau arbennig. Mae wedi bod yn rhyfedd i weld pobl yn tyfu fel Cristnogion dros yr amser ac yn fwy rhyfeddol i weld rhai o'n ffrindiau'n dod i nabod Iesu Grist eu hunain.

"Wrth fynd i'r sei@ ac astudio'r Beibl gyda fy ffrindiau dwi wedi dysgu mwy am sut i fyw fel Cristion."

Gethin Lloyd, 14

"Y peth gorau i mi am sei@ oedd dod yn Gristion ond mae wedi bod yn dda i weddïo gyda fy ffrindiau a sgwrsio am Iesu heb bod yn "embarrassed" a heb neb yn neud hwyl ar fy mhen."

Tomos 'Wilko' Wilks, 13

"Mae'n grêt i weld fy ffrindiau yn dod ac i ddarllen y Beibl gyda'n gilydd. Rydym i gyd wedi dysgu a tyfu. Dwi wedi dysgu sut i newid i fod y person mae Duw eisiau i mi fod."








Siôn Morris, 14






Atodiad 1

Samuel: 1 Samuel 1-3






Atodiad 2
Samuel: 1 Samuel 1-3





Atodiad 3

Samuel: 1 Samuel 1-3



Torrwch y rhan yma

Sori

Plîs

Siarad gyda Duw

Diolch

**Cofnod
darllen
a gweddïo**



**Tyfu'n
agosach
at Iesu**

Dydd Llun
Joshua 1: 6-9


Dydd Mawrth
Salm 119: 57-72

Dydd Mercher
Deut. 4: 5-8

Dydd Iau
Actau 21: 1-6



Dydd Gwener
Ioan 16: 5-16

Dydd Sadwrn
Actau 1: 4-9





Atodiad 5
Samuel: 1 Samuel 1-3





Atodiad 6 Samuel: 1 Samuel 1-3

Hanna:

Rydw i mor drist does dim plant gennyf. Mae Peninna yn chwerthin arnaf yn gas.

Bob blwyddyn byddwn yn mynd i Seilo fel teulu i roi ein hoffrwm i Dduw. Es i i'r Tabernacl i weddio. Dywedais, "O Dduw, os wyt Ti'n rhoi babi i mi, dw i'n addo ei roi yn ôl i Ti." Ar ôl ychydig dyma fi'n darganfod fy mod yn disgwyl babi. Roeddwn mor llawen. Ar ôl i Samuel tyfu i fod yn ddigon hen aethon ni ag e yn ôl i Seilo i fyw gydag Eli, yr hen offeiriad. "Dyma Samuel i ti, Eli. Caiff fyw yma gyda thi i dy helpu yn y Tabernacl. Rwy'n ei fenthyg i'r Arglwydd am byth."



Eli:

Rwy'n cofio gweld Hanna am y tro cyntaf – roeddwn i'n meddwl ei bod hi wedi meddwl! Roedd hi'n gweddio – yn gofyn i Dduw am blentyn. Y tro nesaf i mi gweld Hanna roedd bachgen bach ganddi – Samuel. Doedd Hanna ddim wedi anghofio ei haddewid i Dduw chwaith. Daeth Samuel i fyw gyda mi yn y Tabernacl. Roedd e'n help mawr yn y gwaith o edrych ar ôl y Tabernacl oherwydd roeddwn yn mynd yn hen, yn methu a gweld yn dda iawn.

Samuel:

Es i fyw gydag Eli yn y deml. Roedd llawer o waith i wneud a llawer o ymwelwyr yn mynd a dod gyda'u hoffrymau. Un noson, clywais Duw yn siarad gyda mi. Yn gyntaf, roeddwn yn meddwl mai Eli oedd yn galw! Dywedodd Eli wrthyf i ateb Duw. Ces i neges gan Dduw i Eli - roedd meibion Eli yn rhai drwg iawn, doedd Duw ddim yn hapus o gwbl. Mae gan Dduw gwaith pwysig i mi wneud cyn bo' hir.

Ffeil o Ffeithiau

Enw

Cyfeiriad

Dyddiad Geni



Dw'n hoffi...

Dw'n casau


5 peth dylech wybod amdanafi




Atodiad 7 Samuel: 1 Samuel 1-3




Plygwch y papur, yn ei hanner, yn groes linol ac agorwch eto.




Plygwch un cornel i'r canol.





Trowch drosodd.



Plygwch y ddau gornel sydd ar yr ochr i'r canol.



Trowch drosodd eto. Plygwch gornel **a** at pwynt **b**, gan greu plygiad ar y llinell ddotiog. Dewch â fflap **c** i'r blaen.



Gwnewch yr un peth yr ochr arall.






Plygwch y trwnc i fyny.... Ac i lawr....



I orffen, trowch drosodd. Plygwch y ddau cornel yn yn ôl, ac ychwanegwch llygaid.



Atodiad 8
Samuel: 1 Samuel 1-3





Samuel - Pa ffordd yr awn ni?

Emyn/Cân

Cyflwyno'r eitemau

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn clywed hanes Hanna a Samuel. Rydym wedi bod yn sôn am weddio a pha mor bwysig yw hi ein bod ni'n siarad gyda Duw bob dydd, fel y gwnaeth Hanna.

Darlleniad – Hanes Hanna a Samuel o'r 'Beibl Bach i Blant', tud.172-175

Eitem: gan y plant lleiaf – cân

Eitem: Plant oed cynradd i ddangos eu gwaith crefft ac i arwain amser gweddi.

Cân: Gweddi sydd fel codi ffôn

Cyflwyniad: Rhan 1 – 'Mynd ar goll'

Byddwch angen sach deithio (*rucksack*) yn llawn o bethau defnyddiol os am fynd am dro, e.e. esgidiau cerdded, dillad dal dŵr, bwyd, fflasg, chwiban, diod o ddŵr, torts, cwmpawd a map. Trafodwch bwysigrwydd cael map a'i ddilyn yn ofalus.

Rhennwch hanes personol am adeg yr aethoch ar goll. Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw wedi bod ar goll erioed, ydyn nhw wedi clywed mam a dad yn ffraeo tra ar goll?

Mae'r Beibl yn debyg iawn i fap. Yn union fel y mae map yn dangos y ffordd i ni gyrraedd gwahanol lefydd, felly hefyd y mae'r Beibl yn dangos y ffordd i ni ddod at Dduw a sut i fyw er mwyn plesio Duw.

Dysgu'r adnod:

Salm 103, adnod 105: "Y mae dy air yn llusern i'm troed ac yn oleuni i'm llwybr."

Ysgrifennwch yr adnod yn fawr ar 5 darn o bapur. Gofynnwch i rai o'r plant ddal y papurau.

Darllenwch yr adnod gyda'ch gilydd ychydig o weithiau cyn tynnu rhan o'r adnod oddi yno.

Darllenwch unwaith eto. Tynnwch ddarn arall o'r adnod i ffwrdd, ayyb, hyd nes bod pawb yn gallu adrodd yr adnod heb gymorth.

Gofynnwch i bawb ddychmygu eu bod yn mynd allan am dro yn y tywyllwch. Beth fydd ei angen fwyaf arnoch, yn fwy na dim byd arall? Mae'r Beibl yn dweud ein bod ni i gyd yn y tywyllwch oherwydd ein pechodau. Dydyn ni ddim yn gallu gweld Duw, na'i adnabod.

Mae geiriau Duw yn ein harwain ac yn dangos y ffordd i ni – fel y mae torts yn dangos y ffordd yn y tywyllwch. Mae'r Beibl yn dangos fod Iesu wedi marw drosom ni, i gael gwared o'n pechodau a'r tywyllwch.

Ond mae rhai pobl yn meddwl eu bod yn gallu gwneud heb arweiniad Duw, fel yn y sgets sy'n dilyn.



Gwasanaeth Teuluol Samuel: 1 Samuel 1-3

Sgets: 'Dwi ddim angen map!'

Beth yw eich barn chi am y cerddwr yn y sgets? Peth gwirion iawn ydi anwybyddu'r map ynde? Mae llawer ohonom ni yn debyg iddo! Rydym yn anwybyddu Gair Duw. Efallai nad ydym yn credu ei bod hi'n bwysig i ni adnabod Duw, ond mae'r Beibl yn dweud pan ddown ni i adnabod Duw y cawn y bywyd gorau posib.

Emyn/Cân: *Byddai "Ceisiwch yn gyntaf" yn addas iawn.*

Cyflwyniad: Rhan 2 – 'Deall y map yn iawn'

Dangoswch nifer o eitemau sydd angen partner i weithio'n iawn, e.e. clo a goriad, tun o fwyd ac agorwr, cnau a gefail gnau. Trafodwch yr eitemau yn eu tro. Pwysleiswch nad yw un yn werth dim heb y llall.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i ni gael cymorth yr Ysbryd Glân i ddeall y Beibl. Heb yr Ysbryd Glân, mae'r Beibl fel unrhyw lyfr arall – yn debyg i glo heb allwedd, neu dun heb agorwr. Felly, bob tro y byddwn yn darllen y Beibl, y mae'n rhaid i ni ofyn i'r Ysbryd Glân am ei gymorth.

Hefyd, rydym angen cymorth yr Ysbryd Glân i fod yn ufudd i Dduw. Byddwn yn darllen yn y Beibl am sut y mae Duw am i ni fyw, ac o bryd i'w gilydd, bydd hi'n anodd iawn. Mae'r Ysbryd Glân yn gallu rhoi nerth i ni i wneud yr hyn sy'n iawn. Dim ond gofyn sydd rhaid!

Cyflwyniad: Rhan 3 – 'Gwaith Cymdeithas y Beibl' Sleidiau ar y CDd

Tybed sawl Beibl sydd yn eich tŷ chi? Yn ein tŷ ni mae yna.....(*Dangoswch amrywiaeth o Feiblau gan gynnwys rhai plant*).

Rydym mor freintiedig i gael cynifer o wahanol Feiblau.

Heddiw, mae dwy ran o dair o boblogaeth y byd heb fod wedi gweld Beibl yn eu hiaith eu hunain. Mae Cymdeithas y Beibl yn gweithio er mwyn darparu Beiblau ar gyfer gymaint o bobl ag sy'n bosibl.

Dangoswch y Cyflwyniad PowerPoint (sydd ar y CDd), neu dangoswch y lluniau sydd ar y CD a darllen y sript.

Gweddiwn

'Diolch, O Dad, bod gennym y Beibl yn ein hiaith ein hun.

Cofiwn yn arbennig heddiw am waith Cymdeithas y Beibl. Gofynnwn i Ti fendithio eu hymdrechion i ddarparu Beibl ym mhob iaith. Gofynnwn i Ti fendithio eu gwaith i annog pobl i ddarllen Dy Air.

Diolch am ddangos Dy gariad a Dy drugaredd wrthym trwy Dy Air.

Maddau i ni am beidio â chymryd mwy o sylw o Dy Air.

Maddau i ni am fod yn ddiog ac am wneud esgusodion i beidio â'i ddarllen.

Ysbryd Glân, rho awydd newydd yn ein calonnau i ddarllen Dy Air.

Helpa ni i ddeall Dy Air, a rho'r awydd i ni i fod yn ufudd.

Amen.'

Cymhwyso i'r oedolion: *os dymunant. Gellir rhannu taflen waith i'r plant.*

Emyn/Cân

'Caneuon Ffydd': 188, 192, 198, 274, 275

'Tyrd i Ddathlu': 5, 7, 26, 29, 32



Gwasanaeth Teuluol Samuel: 1 Samuel 1-3

Sgets: 'Dwi ddim angen map!'

Llefarydd: Un diwrnod braf yn yr haf, eisteddai dyn ar ei ben ei hun ar ben y Bannau.

Dyn 1: Rwyf ar ben fy hun, yn unig.

Llefarydd Ond, yn fwy na hynny hyd yn oed, roedd y dyn ar ei ben ei hun - ar goll!

Dyn 1: Yn waeth na dim, rwyf ar goll! Ac, ew, mae'r sach yma'n drom!

Llefarydd: Beth am edrych yn y sach?

Dyn 1: Beth sy'n gwneud y sach 'ma mor drom tybed? Dwi am edrych! Bocs bwyd, bron yn wag! Siwmpwr, côt law, torts, fflasg ddiod - wag! map a chwmpawd.

Llefarydd: Mae gan y dyn unig yma sydd ar goll, fap a chwmpawd! Felly, sut mae o ar goll?

Dyn 1: Nid yw'r map a'r cwmpawd ma fawr o werth – am ddau reswm! Dwi ddim yn medru eu defnyddio, a hyd yn oed pe bawn i, byddai'n ddefnyddiol gwybod ble mae cychwyn edrych ar y map!

Llefarydd: Digon teg. Beth bynnag, problem fwyaf y dyn unig yw bod ei stôr o fwyd yn prinhaus, does ganddo ddim dŵr ar ôl i'w yfed ac mae'n tywyllu'n gyflym!!

Ond, trwy ryw drugaredd, dyma gerddwr arall yn cerdded tuag at yr un oedd ar goll.

Dyn 1: Cerddwr arall!

Dyn 2: Cerddwr arall!

Llefarydd: Wedi i'r ddau gydnabod ei gilydd fel cerddwyr, dyma gerddwr 1 yn sôn am ei drafferth, a cherddwr 2 yn sôn am ei daith braf.

Dyn 1: Dwi ar goll.

Dyn 2: Dwi'n mwynhau.

Dyn 1: Dwi ddim eisie bod yn y fan hyn.

Dyn 2: Yn ble?

Dyn 1: Dyna'r pwynt. Dwi ddim yn gwybod yn ble!

Dyn 2: Wyt ti wedi dod heb fap?

Dyn 1: Na.

Dyn 2: Wyt ti wedi dod heb gwmpawd?

Dyn 1: Na.

Dyn 2: Wel?

Dyn 1: Dwi ddim yn gwybod sut mae defnyddio map na chwmpawd, a faswn i ddim yn gwybod ble i edrych ar y map beth bynnag, oherwydd dwi ar goll! Rwyf ti'n edrych yn hyderus, ble mae dy fap di?

Llefarydd: Mae yna wahaniaeth mawr rhwng pobl. Mae rhai pobl yn bobl mapiau, yn bobl cwmpawdau; rhai yn alluog, eraill yn llai galluog; a'r cwestiwn sydd yn aros yw, 'beth yw'r pwynt cael yr offer iawn, os nad ydych yn medru eu defnyddio?'

Dyn 1: Oes gen ti fap? Oes gen ti gwmpawd? Wyt ti'n gwybod ble ydwi?

Dyn 2: Wel! Does gen i ddim map yn benodol, na chwmpawd –

ond dyma sydd gennyf, mi ddangosa i ti – dyma fy oriawr, nid unrhyw oriawr, ond oriawr â chwmpawd arni, teclyn i fesur uchder a theclyn i fesur camau.

Dyn 1: Waw! Anhygoel!

Dyn 2: Ond, fel pe bai hynny ddim yn ddigon, mae gen i hwn hefyd; - fy system leoli byd-eang personol – *Global Positioning System*. Gall hwn ddweud wrtha i ble ydwi yn y byd, pa uchder, a hynny o fewn tua ugain metr. Mae'r wybodaeth yn dod i lawr o loeren sy'n hedfan allan yn y gofod!

Dyn 1: Waw eto! Ydy pobman yn y byd yn cynnwys y Bannau?



Gwasanaeth Teuluol Samuel: 1 Samuel 1-3

- Dyn 2: Ydy, yn cynnwys y Bannau!
Dyn 1: Wnaiff o ddweud ble ydwi nawr?
Dyn 2: Na, dim nawr.
Dyn 1: Pam?
Dyn 2: Dim batri!
Llefarydd: Am orig ddiddorol. Am wybodaeth ddefnyddiol. Yn anffodus, mae'r wybodaeth am y GPS mor ddefnyddiol â siwt nofio yn y Sahara!
Dyn 2: Ond, cyn i ti anobeithio, dwi'n medru darllen map a defnyddio cwmpawd.
Dyn 1: Wel, 'does gen i ddim oriawr i ryfeddu, na GPS, ond mae gen i fap.
Llefarydd: Estynnodd ei fap o'i fag yn y tywyllwch.
Dyn 2: Annifyr. Map anghywir. Map da, ond y map anghywir!
Dyn 1: Sut mae cychwyn defnyddio hwn?
Dyn 2: Dim problem. Mae popeth ar y map. Dim ond i ni edrych ar y tirlun. Oes yna goed, creigiau, llethrau serth? Yna, dim ond i ni gael rhyw arwydd, gallwn ddirnad ble yr wyt ti, a minnau.
Llefarydd: I dywyllwch y foment, daw llygedyn o oleuni, gyda'r gobaith y byddai'n gwawrio cyn hir. Wedi hir edrych, daeth ochenaid.
Dyn 1: Ochenaid - o ryddhad!
Dyn 2: Rhyddhad pur.
Llefarydd: Roedd y gorwelion bellach wedi eu goleuo, er ei bod yn tywyllu. Estynnwyd y torts. Estynnwyd y cwmpawd.
Dyn 2: Y cyfan sydd angen ei wneud yw estyn y cwmpawd a'i osod ar y map, troi'r map i wynebu'r gogledd, a throi y cwmpawd i bwyntio tuag at bendraw dy daith.
Dyn 1: Andros o ddifyr!
Dyn 2: Difyr iawn.
Llefarydd: Oedd popeth wedi ei setlo? Arhoswch –
Dyn 2: I ble'r ei di o fan hyn?
Dyn 1: Difyr. Cwestiwn da. Ond, problem annifyr!
Dyn 2: Problem?
Llefarydd: Problem?
Dyn 1: Problem. Dwi heb benderfynu, dwi ddim yn gwybod ble dwi am fynd!
Llefarydd: Annifyr!
Dyn 2: Annifyr iawn!